



## Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2024

### Ethol i Fwrdd y Cyfarwyddwyr – Ffurflen enwebu a datganiad

Mae gan aelodau hawl i enwebu unigolion cymwys o fewn aelodaeth Cwmpas i'w hethol i Fwrdd y Cyfarwyddwyr.

Mae dwy swydd wag i'w llenwi. Os bydd angen, cynhelir etholiad un aelod/un bleidlais yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Mae rhestr gyffredol o aelodau ar gael ar ein gwefan. Mae'r Cyfarwyddwyr sy'n ymddeol yn gymwys i gael eu henwebu. Mae rheolau Cwmpas yn atal enwebu gweithwyr Cwmpas, felly mae eu henwau wedi cael eu tynnu oddi ar y rhestr o aelodau.

Gallwch enwebu eich hun. Os dymunwch enwebu aelod arall, gofynnwch am eu cymeradwyaeth.

**Rydym yn croesawu ceisiadau gan bawb. I gyflawni hyn, byddem yn croesawu'n arbennig geisiadau gan fenywod, aelodau o'r gymuned LHDTCRh+, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl sy'n byw y tu allan i dde-ddwyrain Cymru.**

Mae'n rhaid i gyfarwyddwyr ddangos **ymrwymiad i werthoedd Cwmpas:**

**Bod yn gydweithredol...** rydym yn gweithio ar y cyd er budd pawb.

**Bod yn gefnogol...** rydym yn rhoi ein hamser, ein harbenigedd a'n hanogaeth.

**Bod yn deg...** rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth a democratiaeth.

**Bod yn onest...** rydym yn ymdrechu i fod yn agored ac yn onest ym mhopeth a wnawn.

**Bod yn gadarnhaol...** rydym yn buddsoddi ein hegni er mwyn cyflawni canlyniadau.

**Bod yn ysbrydoledig...** rydym yn ysgogi pobl, cymunedau a busnesau i gymryd rheolaeth a chyrraedd eu potensial.

Mae Cwmpas hefyd yn awyddus i'w cyfarwyddwyr **ddod â rhai o'r sgiliau allweddol canlynol** i'r Bwrdd:

- Datblygu busnes
- Cyllid
- Cynhyrchu incwm
- Arweinyddiaeth
- Rheoli prosiect
- Rheoli risg
- Cynllunio strategol



Byddai sgiliau neu brofiad o hyrwyddo cydraddoldeb a mynd i'r afael â newid hinsawdd hefyd yn ddefnyddiol.

**Er mwyn cwblhau'r broses, mae arnom angen**

- ffurflen enwebu wedi'i llofnodi,
- ffurflen ddatganiad wedi'i llofnodi a
- datganiad personol byr (1 dudalen ar y mwyaf) ar gyfer pob enwebai.

Rydym hefyd yn gofyn i ymgeiswyr lenwi'r ffurflen Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i'n helpu i ddeall a ydym wedi llwyddo i ddenu ceisiadau amrywiol.

Dylai eich datganiad personol roi sylw i'r meysydd canlynol:

- Eich ymrwymiad i werthoedd Cwmpas
- Pa sgiliau, gwybodaeth, neu brofiad y gallech chi eu cyflwyno i'r rôl.

Os ydych yn enwebu rhywun heblaw amdanoch chi eich hun, bydd angen iddynt gwblhau a dychwelyd y ffurflen ddatganiad a'r datganiad personol eu hunain.

Dychwelwch y dogfennau hyn trwy e-bost at: [sarah.beal@cwmpas.coop](mailto:sarah.beal@cwmpas.coop)

Neu postiwch nhw at y:

**Swyddog Llywodraethu**

**Cwmpas**

**Sparc**

**Maindy Road**

**Caeridd**

**CF24 4HQ**

**I'n cyrraedd erbyn dydd Mercher 28 Awst 2024 fan bellaf**



## Ffurflen enwebu

Hoffwn enwebu'r aelod canlynol i'w ethol i Fwrdd Cwmpas:

Enw:

---

Llofnodwyd: \_\_\_\_\_

Enw mewn priflythrennau: \_\_\_\_\_

Sefydliad (os yn berthnasol): \_\_\_\_\_

E-bost: \_\_\_\_\_

Dyddiad: \_\_\_\_\_

Os ydych yn enwebu eich hun, cwblhewch, llofnodwch, a dychwelwch y ffurflen hon ynghyd â'r ffurflen datganiad a datganiad personol.

**Os ydych yn enwebu rhywun heblaw amdanoch chi eich hun, bydd angen iddynt gwblhau a dychwelyd y ffurflen datganiad a'r datganiad personol eu hunain.**



## Ffurflen datganiad

**Mae Rheolau Cwmpas yn ei gwneud yn ofynnol i bob darpar gyfarwyddwr lofnodi datganiad eu bod yn gymwys i ddal swydd.**

Mae Rheolau Cwmpas yn nodi'r meini prawf er mwyn bod yn gymwys i fod yn gyfarwyddwr. Yn ogystal, mae Rôl y Bwrdd a'r Cod Ymddygiad yn nodi prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau cyfarwyddwyr Cwmpas.

Rhaid i bob aelod sydd am gael ei ethol yn gyfarwyddwr ddatgelu unrhyw gytundeb gwaith, contract neu wasanaeth ac unrhyw gysylltiad personol â Cwmpas i'r Prif Weithredwr, fel ysgrifennydd y cwmni, cyn cyflwyno ei ffurflen enwebu a ffurflen datganiad. Sylwer: **Ni chaiff aelodau'r Bwrdd a'r sefydliadau y maent yn gweithio iddynt wneud gwaith cyflogedig o unrhyw fath i Cwmpas.**

Rwyf i, ....., yn datgan fy mod yn gymwys i ddal swydd Cyfarwyddwr Cwmpas ac nad wyf wedi fy anghymhwyso yn ôl y gyfraith.

Rwy'n ymwybodol bod Rheolau Cwmpas yn nodi'r meini prawf er mwyn i unigolyn fod yn gymwys i fod yn gyfarwyddwr. Rwy'n cytuno i hysbysu'r cadeirydd neu'r ysgrifennydd yn syth ar ôl dod yn ymwybodol nad wyf, neu efallai nad wyf bellach, yn gymwys i fod yn gyfarwyddwr.

Fel cyfarwyddwr, cytunaf i gyflawni fy nghyfrifoldebau mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod Cwmpas, fel cwmni cydweithredol, yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithredu'n unol â'r gwerthoedd a'r egwyddorion a nodir yn Natganiad Cynghair Rhyngwladol y Mentrau Cydweithredol ar yr Hunaniaeth Gydweithredol, sy'n sail i bob menter gydweithredol.

Cytunaf i ddatgelu i'r bwrdd, drwy'r ysgrifennydd, unrhyw sefyllfa yn awr neu yn y dyfodol, a allai, yn fy marn i, arwain at wrthdaro buddiannau.

Llofnodwyd: \_\_\_\_\_

Enw mewn priflythrennau: \_\_\_\_\_

Dyddiad: \_\_\_\_\_



## Datganiad personol

Ni ddylai eich datganiad personol fod yn hwy nag 1 dudalen A4 a dylai gyfeirio at:

- Eich ymrwymiad i werthoedd Cwmipas
- Pa sgiliau, gwybodaeth, neu brofiad y gallech eu cyflwyno i'r rôl.

Rhestrir ein gwerthoedd a'r sgiliau allweddol ar gyfer aelod o'r Bwrdd ar dudalen 1 (uchod). Mae disgrifiad o'r rôl, Cod Ymddygiad y bwrdd a chopi o Reolau Cwmipas i'w gweld ar dudalen Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol gwefan Cwmipas.